Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Pentre Bach**

**Cwm Golau Integrated Childrens Centre**
**Duffryn Road Pentrebach**
**Merthyr Tydfil**
**CF48 4BJ**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn âCylch Meithrin Pentre Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Pentrebach |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolwg yn dilyn cofrestriad |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf iawn ac maent yn cyfathrebu'n hyderus gyda'i gilydd a gyda'r staff. Maent yn datblygu cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y gwrandewir arnynt. Mae'r plant yn hynod hapus ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol yn annibynnol.

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau'n gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol y plant er mwyn sicrhau eu llesiant yn llwyddiannus. Mae'r staff yn wybodus, yn garedig ac yn ofalgar ac yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Maent yn cynllunio ac yn hyrwyddo eu hathroniaeth addysgeg yn effeithiol iawn i ddatblygu diddordebau a chwilfrydedd y plant yn llwyddiannus.

Mae gan arweinwyr fesurau rhagorol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Maent yn sicrhau bod gan y plant fynediad i ystod gyffrous o ddarpariaeth o'r safon uchaf. Maent yn cynnig cyfleoedd gwych i blant i chwarae a dysgu mewn amrywiaeth o fannau dan do ac yn yr awyr agored er mwyn meithrin eu sgiliau datblygiadol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n gyson â'r holl reoliadau perthnasol ac yn rhagori ar y Safonau Cenedlaethol Gofynnol. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol ac maent yn sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd parhaus i ddatblygu'n broffesiynol. Maent yn rolau model da iawn ac yn sicrhau eu bod yn cynnig gofal o safon uchel. Maent wedi datblygu partneriaethau cryf o fewn y ganolfan a gyda'r gymuned er mwyn caniatáu cyfleoedd arloesol i blant.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf iawn ac maent yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Mae'r plant yn cael cyfleoedd cyffrous i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio nhw. Mae eu safbwyntiau a'u diddordebau yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac mae staff yn gweithredu arnynt. Er enghraifft, yn ystod y gweithgaredd coginio, dywedodd plentyn, "*I want a drink"* a dilynwyd hyn yn syth gyda staff yn ymateb, "*Ti ishe diod? Dere gyda fi i ôl y bag."* Ar ôl casglu cwpan a jwg bach o laeth gwelsom staff yn cefnogi'r plentyn i arllwys llaeth mewn i'r cwpan, "*Tipyn bach,  mae bron yn amser snac".* Trwy lwyddo i lenwi'r cwpan yn annibynnol, cafodd y plentyn ganmoliaeth gynnes. Mae plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddewis eu chwarae, eu bwydydd yn ystod amser byrbryd, eu hadnoddau yn yr awyr agored a dewis mynd i'r tŷ bach.

Mae'r plant yn amlwg yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maent yn ymdopi yn dda iawn â bod ar wahân o'u teuluoedd ac mae eu hanghenion unigol yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r plant yn symud o amgylch y safle yn hyderus, yn gyfforddus ac yn brysur yn eu chwarae. Maent yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd dyddiol brwsio dannedd, gwenodd y plant wrth iddynt ymateb i gerddoriaeth yn y cefndir a chanu "*lan a lawr"*. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent wedi meithrin cydberthnasau cryf gyda'u cyfoedion a staff. Mae'n glir bod y plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol wrth iddynt olchi eu dwylo a gwisgo eu cotiau wrth baratoi i chwarae tu allan. Mae teimladau'r plant yn cael eu hystyried a'u gwerthfawrogi. Er enghraifft, wrth iddynt gymryd rhan mewn amser cylch, yn trafod emosiynau, roedd y plant yn gyfforddus ac yn gyffrous i ymateb, "*Sut wyt ti'n teimlo heddiw?" "I'm good". "Ahh da iawn, ti'n hapus."* Mae'r rhyngweithio yn gyson ac mae'r plant yn dangos parch at ei gilydd a diddordeb yng ngwaith ei gilydd. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd bwrdd pan oeddent wedi cael y dewis i beintio jwg o flodau, roeddent yn cymryd tro ac yn gwylio ei gilydd.

Mae'r plant yn cydweithio'n frwdfrydig ac yn dangos diddordeb a chymhelliant wrth iddynt gymryd rhan yn eu chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau arbrofi a datblygu sgiliau newydd. Er enghraifft, wrth ddefnyddio beiciau a chuddio yn y tŷ bach twt pren cyn ymddangos gydag elfen o syndod a boddhad. Mae'r plant yn ymroi yn llwyr i drefniadau'r sesiwn ac yn gyffrous am y cyfleoedd dysgu sydd yn cael eu paratoi ar eu cyfer. Er enghraifft, gwelsom blant yn cymryd diddordeb mawr yn astudio rysáit pice ar y maen oedd wedi ei fframio ar y bwrdd wrth iddynt gyffwrdd â'r cynhwysion. Gwisgwyd ffedogau yn frwdfrydig a gweld boddhad mawr wrth iddynt ddechrau ar y gwaith. Mae'r plant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd yn llwyr. Mae'r drws i'r ardal allanol ar agor yn barhaol ac yn cynnig y dewis iddynt chwarae tu fewn neu yn yr awyr agored. Mae plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sydd yn eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, aeth y plant yn annibynnol i gasglu plât a bowlen o'r cwpwrdd llestri cyn eistedd nôl wrth y bwrdd a helpu eu hunain i hambyrddau o fwydydd iachus fel

caws, ciwcymbr, afal, mefus a banana. Wrth ddefnyddio llwyau gweini, roeddent yn helpu eu hunain i’r bwydydd o’u dewis wrth ddweud plîs a diolch. Mae plant yn gyfforddus i ddewis llaeth neu dŵr o jygiau bach, ac yn arllwys eu diodydd yn annibynnol. Maent yn dilyn eu greddfau, eu syniadau a’u diddordebau yn gyson gan fod ganddynt fynediad llwyr i bob adran o’r amgylchedd. Mae’r gweithgareddau sydd wedi eu paratoi ar eu cyfer yn arwain at hunan barch ac ymdeimlad gwych o gyflawni.  Maent yn awyddus i ddangos neu siarad am y pethau y maent wedi bod yn eu gwneud. Er enghraifft, gwelsom blant yn gyffrous i ddangos eu cacennau wrth i’w teuluoedd eu casglu.

| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae staff yn deall polisïau a gweithdrefnau yn llawn ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Mae staff yn nodi risgiau ac yn mynd ati i'w rheoli yn effeithiol. Maent yn gweithredu arferion cadarn a rhagorol o ran hylendid. Er enghraifft, gwelwyd staff yn gwisgo ffedogau a menig wrth gyflwyno diodydd neu hambyrddau o fwydydd. Gwelsom yr un lefel o fanylder wrth i staff gefnogi plant yn y tŷ bach a defnyddio sebonau a sychu dwylo gyda phapur. Mae'r safle yn cynnig cyfleusterau o safon ar gyfer newid cewynnau. Mae staff yn diheintio byrddau ac arwynebau ar bob adeg, cyn ac yn dilyn gweithgareddau. Maent yn annog plant i fod yn ymwybodol o olchi eu dwylo cyn ac ar ôl gweithgaredd coginio, cyn byrbryd ac ar ôl bod tu allan yn yr awyr agored. Mae staff yn paratoi byrbrydau iachus ar gyfer y plant ac eglurodd staff yn hyderus am weithdrefnau clir petai plant yn dioddef o alergeddau. Roddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn drwyadl. Mae staff wedi mynychu hyfforddiant diogelu a thrafodwyd gweithdrefnau'r lleoliad yn hyderus. Mae ganddynt siart llif diogelu ar wal y lleoliad ac mae staff yn ymwybodol o'u rolau a manylion cyswllt asiantaethau allanol.

Mae staff yn rhyngweithio yn effeithiol iawn gyda'r plant ac ymysg ei gilydd ac yn ymateb yn ystyrlon i ofynion a chwestiynau'r plant. Mae iaith cartref y plant yn cael ei barchu a'r iaith Gymraeg yn cael ei hybu ar bob adeg o'r sesiwn mewn modd hawddgar a sensitif. Mae staff yn gwrando ar farnau'r plant yn ofalus ac mae eu dymuniadau a'u syniadau yn cael eu parchu. Mae'r rhyngweithio yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd ac mae staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.

Mae staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd eang a rhagorol i ddatblygu drwy eu chwarae a dysgu. Maent yn cynnig anogaeth i blant yn ystod eu gweithgareddau ac yn gefnogol iddynt yn eu chwarae. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd coginio, dywedodd staff, *"Dyna ti, da iawn, wyt ti ishe dangos i fi fel wyt ti'n rholio? Mae angen blawd arno ti fel bod e ddim yn sticio i'r bwrdd. Dyna ti – da iawn".* Mae staff yn weithgar wrth iddynt gyflwyno adnoddau a geirfa newydd i blant drwy'r gweithgareddau. Er enghraifft, wrth ddilyn rysáit, aeth staff ymlaen i drafod beth oedd angen nesaf, "*nawr mae angen llond llaw o gyrants. Pwy sydd wedi treio cyrants o'r blaen?".* Enghraifft arall o ryngweithio cadarn a rhagorol oedd yn ystod amser byrbryd pan oedd plentyn wedi pwyntio ar y caws a dywedodd staff, *'wyt ti ishe rhagor o gaws? Dyna ti, da iawn. Faint wyt ti ishe? Ydy ni'n mynd i gyfri?"* Mae gan staff ddealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad plant, a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar eu dysgu a'u hymddygiad. Maent yn nabod y plant yn dda iawn ac wrth ddeall eu diddordebau unigol, mae staff yn cynllunio o'r diddordebau hynny. Mae ganddynt broses gynllunio drwyadl. Er enghraifft, siart 'Ein Taith Cwricwlwm' ynghyd a chynllunio wythnosol. Er enghraifft, roedd y thema a oedd ar waith yn cynnig profiadau a chyfleoedd cyffrous a oedd yn ymwneud a Chymru, coginio, blasu, dysgu geiriau newydd, creu cestyll a defaid, a sgiliau trafod pêl.

## Yr Amgylchedd — Rhagorol

Mae gan arweinwyr fesurau a pholisïau cynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant. Maent yn cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr ac yn cadw cofnodion dyddiol sydd yn cael eu hadolygu ac arwyddo. Er enghraifft, defnydd ardaloedd eraill y ganolfan a theithiau allan o'r lleoliad, fel y ganolfan chwarae rôl. Mae arweinwyr yn cadw asesiadau perygl tân effeithiol iawn. Mae rhain yn cael eu hadolygu yn ôl newidiadau a gofynion y gwasanaeth. Maent hefyd yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau i ddiogelu plant yn ôl gweithdrefnau driliau tân. Mae tystiolaeth bod offer cymorth cyntaf ar gael, yn ogystal â safonau uchel a ddyfarnwyd gan yr asiantaeth safonau bwyd. Mae ymwelwyr i'r gwasanaeth yn arwyddo mewn i'r ganolfan ac eto yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod staff yn goruchwylio plant yn dda iawn ac yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant wrth ganiatáu risgiau derbyniol o dan ofal y staff. Mae'r ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored yn cynnwys offer sydd yn sicrhau diogelwch ychwanegol. Er enghraifft, polion pren wedi eu gorchuddio yn ddiogel.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad cyfleusterau ardderchog o fewn amgylchedd rhagorol. Maent yn sicrhau amgylchedd diogel sydd mewn cyflwr da iawn dan do ac yn yr awyr agored. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal dan do a'r awyr agored yn hyrwyddo rhyddid ac annibyniaeth y plant i arbrofi, archwilio a mwynhau eu chwarae a phrofiadau dysgu. Tu allan, mae plant yn cael y cyfle i chwarae o dan gysgod wrth fyrddau bach neu ar goncrid, rhisgl neu wair. Mae gan y lleoliad ystod o adnoddau sydd wedi eu trefnu yn ofalus i gynnig cyfleoedd rhagorol i blant ymestyn a datblygu eu sgiliau corfforol a datrys problemau. Er enghraifft, casgen ddŵr, blociau mawr, tŷ bach twt, castell pren, llithren, a wal graffiti ar gyfer marcio.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd cyfan yn ddiddorol a chyffrous. Maent yn cynnig ystod o adnoddau ac offer o'r safon uchaf er mwyn ymestyn a datblygu sgiliau creadigol a dychmygol y plant. Mae'r ardal yn yr awyr agored yn cynnig darpariaeth ardderchog sy'n cynnig cyfleoedd rhagorol a heriol i'r plant. Yn ogystal, mae gan y plant mynediad wythnosol i ardal ysgol goedwig ger llaw, lle mae plant yn cael cyfleoedd i arbrofi a dysgu am natur a risgiau ychwanegol. Maent hefyd yn cael defnydd ystafell synhwyraidd y ganolfan sydd yn cynnig amgylchedd unigryw i blant gael profiadau tawel i ymlacio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn ei rhannu'n effeithiol ag eraill. Mae'r arweinwyr yn darparu datganiad o ddiben sydd yn gyfredol, yn glir ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth. Maent yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn cydymffurfio a'r holl reoliadau. Mae arweinwyr yn wybodus am eu cyfrifoldebau ac yn adolygu polisïau yn rheolaidd. Maent yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd o'r gwasanaeth ac yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae arweinwyr dyddiol y gwasanaeth yn gweithio i sefydlu a datblygu partneriaeth gweithio agos gyda'r pwyllgor newydd ac yn awyddus i gyflwyno datblygiadau pellach i'r gwasanaeth. Maent yn sicrhau eu bod yn cadw trefn ar yr holl ddogfennaeth. Mae'r broses arfarniadau a goruchwylio ar waith. Mae'r arweinwyr hefyd yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant cyson ac yn cael cyfleoedd i fynychu cyrsiau i gyd-fynd a diddordebau a nodau personol y staff. Gwelsom gofnodion, dogfennaeth a thystysgrifau cyfredol a chywir. Er enghraifft, mae ffeiliau staff yn gyflawn ac yn dangos proses anwytho manwl er mwyn cefnogi staff i ddilyn eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae ffeiliau'r plant yn cynnwys tystiolaeth o gytundebau a llofnodion caniatâd. Mae cofnodion damweiniau a chofnodion gweinyddu meddyginiaeth yn gywir.

Mae'r arweinwyr dyddiol yn mynd ati i roi hunanwerthusiad ar waith. Gwelsom awgrymiadau ac adborth wedi eu casglu oddi wrth y plant, rhieni, y staff a phartneriaid, ac maent yn gweithredu arnynt. Mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu yn barhaol, yn dda a phwrpasol.

Mae'r tîm o staff yn fach ac yn cydweithio'n agos. Mae'r arweinwyr dyddiol a'r tîm cyfan yn rolau model da iawn. Maent yn dangos parch ac ymddiriedaeth, ac yn cydweithio a chyfathrebu yn effeithiol. Maent yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau ac yn broffesiynol yn eu harfer. Mae cymarebau staff i blant yn cwrdd â gofynion rheoliadol.

Mae tystiolaeth bod partneriaethau da wedi sefydlu o fewn y ganolfan lle lleolir y gwasanaeth. Mae gan yr arweinwyr a'r staff partneriaethau effeithiol ac agos gyda'r gymuned, swyddogion y sir, athrawon cyswllt a gwasanaethau gofal plant eraill a lleolir ar yr un safle. Dywedodd teuluoedd y plant eu bod yn hapus iawn gyda'r gofal mae eu plant yn derbyn a bod nhw wedi setlo yn gyflym. Dywedodd staff eu bod wedi ymgartrefu ac yn mwynhau cydweithio o fewn tîm sydd yn weithgar a chefnogol. Maent yn hapus gyda'r cyfleoedd i ddatblygu ac yn teimlo bod arweinwyr yn eu cefnogi yn llwyr. Mae arweinwyr y gwasanaeth yn rhannu gwybodaeth a lluniau gyda rhieni drwy Ap diogel. Mae llenyddiaeth yn cael eu rhannu gyda rhieni, fel hyfforddiant ar gyfer y tŷ bach a chanllawiau dymis. Maent yn edrych ymlaen at barhau i gynnal sesiynau agored i rieni a chroesawu rhieni newydd i fynychu ei sesiwn Ti a Fi.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R1. Parhau i adeiladu a datblygu'r berthynas gyda'r pwyllgor newydd er mwyn cyflwyno strategaethau cefnogi cadarn ar gyfer arweinwyr dyddiol a staff y gwasanaeth.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| | Ni nodwyd unrhyw Argymhellion SGC yn yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/05/2023